

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Gwastraff (Cymru)
(Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020.**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol o fewn Adran yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020.

Rwyf wedi gwneud y datganiadau sy'n ofynnol o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mae modd gweld y datganiadau hyn yn Rhan 2 o'r atodiad i'r memorandwm hwn.

Lesley Griffiths AS
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
3 Tachwedd 2020

RHAN 1

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan bwerau Gweinidogion Cymru ym mharagraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16), er mwyn mynd i'r afael â methiannau yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol, a diffygion eraill sy'n codi oherwydd bod y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Yn benodol, mae'r rheoliadau hyn yn gwneud addasiadau i Reoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/414 (W. 96)) ("Rheoliadau 2019").

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Mae'r offeryn hwn yn cael ei wneud gan ddefnyddio'r pŵer a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("y Ddeddf Ymadael").

Fel y nodir yn y datganiad gan y Gweinidog yn Atodiad 2 y Memorandwm Esboniadol hwn, cynigir y bydd yr offeryn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Rhaid i offerynnau o'r fath gael eu cyflwyno yn gyntaf i'w sifftio gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Mae'r offeryn yn gwneud mân newidiadau a newidiadau technegol ac felly dylai fod yn ddarostyngedig i'w ddirymu.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae'r offeryn hwn yn cael ei wneud gan ddefnyddio'r pŵer yn Rhan 1 o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 er mwyn mynd i'r afael â methiannau yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol neu ddiffygion eraill sy'n codi oherwydd bod y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Yn unol â gofynion y Ddeddf honno, mae'r Gweinidog wedi gwneud y datganiadau perthnasol fel y manylir yn Rhan 2 o Atodiad y Memorandwm Esboniadol hwn.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Beth wnaeth unrhyw gyfraith berthnasol yr UE cyn y diwrnod ymadael?

Mae'r Offeryn Statudol yn diwygio Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019. Mae cyfraith yr UE yn gosod rheolau a fframweithiau ar gyfer rheoli gwastraff. Mae'r rheolau hyn yn cael eu gweithredu yng Nghymru drwy ddeddfwriaeth ddomestig yn bennaf. Mae Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019") yn diwygio'r ddeddfwriaeth ddomestig bresennol honno o dan bwerau yn y Ddeddf Ymadael (ac eithrio Rhan 2, gweler paragraff 5.10 isod) i wneud y

newidiadau technegol angenrheidiol i sicrhau y bydd yn parhau i weithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU adael yr UE, fel y nodir isod. Daw'r rhain i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu ac maent yn gwneud addasiadau i Fesur Gwastraff (Cymru) 2010 (mccc 8), Rheoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004 (O.S. 2004/1490 (W. 155)), Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1806 (W. 138)) a Rheoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011 (O.S. 2011/1014 (W. 154)).

Pam mae'n cael ei newid?

O ganlyniad i weithredu deddfwriaeth yr UE ers i Reoliadau 2019 gael eu gwneud, gan gynnwys diwygiadau i amrywiol Gyfarwydddebau'r UE a wnaed o dan Becyn Economi Gylchol yr UE, nid yw'r darpariaethau cywiro a wnaed gan Reoliadau 2019 bellach yn mynd i'r afael yn llawn â'r diffygion yng ngweithrediad cyfraith yr UE a ddargedwir a fydd yn codi o ganlyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd, ac y bwriadwyd iddynt eu cywiro.

Mae'r mân newidiadau a'r newidiadau technegol a wneir gan yr offeryn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod deddfwriaeth yr UE a ddargedwir a deddfwriaeth ddomestig yr UE sy'n ei gorfodi yn parhau i weithredu'n effeithiol.

Beth fydd yn ei wneud nawr?

Nid yw Cyfarwydddebau'n cael eu hymgorffori mewn cyfraith ddomestig o dan y Ddeddf Ymadael ac ni fyddant yn rhan o Gyfraith yr UE a Ddargedwir. Felly, roedd Rheoliadau 2019 yn gwneud darpariaeth fel bod y ddeddfwriaeth ddomestig sy'n croesgyfeirio at y gwahanol gyfarwydddebau'n cael ei diwygio (ee bod y cyfarwydddebau'n cael eu haddasu, lle bo angen, at ddibenion y ddeddfwriaeth honno) er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i weithredu fel y bwriadwyd ar ôl ymadael â'r UE. Mae'r mân newidiadau a'r newidiadau technegol a wneir gan yr offeryn hwn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth mae'n ei diwygio yn parhau i weithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae Rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn, sy'n effeithiol yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, yn gwneud diwygiadau i Reoliadau 2019, er mwyn sicrhau pan fyddant yn dod i rym, y bydd yr offerynnau y maent yn eu diwygio, yn gweithredu'n effeithiol ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

Mae Rheoliad 3 yn dirymu mân ddarpariaethau penodol yn Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 a fydd yn peidio â gweithredu'n effeithiol ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

Nid oes unrhyw newid o ran polisi a dim newid o ran safonau amgylcheddol.

5. Ymgynghori

Gan nad oes newid o ran polisi, ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus. Unig bwrpas yr offeryn yw galluogi'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi presennol i aros yr un fath wrth i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gynnal gan mai mân newidiadau technegol yw'r rhain sy'n angenrheidiol oherwydd bod y DU yn gadael yr UE. Nid oedd angen cynnal ymgynghoriad cyhoeddus oherwydd nid oes newidiadau polisi'n cael eu gwneud drwy'r offeryn statudol hwn. Gan fod yr offeryn hwn yn ymwneud â chynnal y ddeddfwriaeth bresennol ar ôl Ymadael â'r UE, nid oes effaith, neu ddim llawer o effaith, ar fusnes, elusennau na chyrff gwirfoddol. Nid oes effaith, neu ddim llawer o effaith, ar y sector cyhoeddus.

Atodiad 2

Datganiadau o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Rhan 1

Tabl o Ddatganiadau o dan Ddeddf 2018

Mae'r tabl hwn yn nodi'r datganiadau a all fod yn ofynnol o Weinidogion Cymru o dan Ddeddf 2018. Mae'r tabl hefyd yn nodi'r datganiadau a all fod yn ofynnol o Weinidogion y Goron o dan Ddeddf 2018, y mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i'w darparu hefyd pan fo angen. Mae modd gweld y datganiadau gofynnol yn Rhan 2 o'r atodiad hwn.

Datganiad	Lle mae'r gofyniad wedi'i osod	I bwy mae'n berthnasol	Beth sydd ei angen arno
Sifftio	Paragraffau 3(7) a 4(3), Atodlen 7 <i>Paragraff 3(7) (disgwylir y bydd yn ofyniad ar Weinidogion Cymru mewn Rheolau Sefydlog)</i>	Gweinidogion Cymru sy'n arfer pwerau yn Rhan 1 o Atodlen 2 i wneud OS Negyddol Mae paragraff 3(7) yn gymwys i Weinidogion y Goron, ond mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad	Datganiad i esbonio pam y dylai'r offeryn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol ac, os yw'n berthnasol, pam eu bod yn anghytuno ag argymhelliad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (fel pwyllgor sifftio)
Priodolrwydd	Is-baragraff (2) o baragraff 28, Atodlen 7	Mae'n berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad nad yw'r OS yn gwneud mwy nag sy'n briodol.
Rhesymau Da	Is-baragraff (3) o baragraff 28, Atodlen 7	Mae'n berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a	Datganiad i esbonio'r rhesymau da dros wneud yr offeryn a bod yr hyn sy'n cael ei wneud yn ffordd resymol i

		23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	weithredu.
Cydraddoldeb	Is-baragraffau (4) a (5) o baragraff 28, Atodlen 7	Mae'n berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad i egluro pa ddiwygiadau, diddymadau neu ddirymadau, os o gwbl, sy'n cael eu gwneud i Ddeddfau Cydraddoldeb 2006 a 2010 a'r ddeddfwriaeth a wnaed oddi tanynt. Datganiad bod y Gweinidog wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu ac ymddygiad o fath arall sydd wedi'i wahardd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
Esboniadau	Is-baragraff (6) o baragraff 28, Atodlen 7	Mae'n berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad i egluro'r offeryn, nodi'r gyfraith berthnasol cyn y diwrnod ymadael, esbonio effaith yr offeryn ar gyfraith yr UE a ddargedwir a rhoi gwybodaeth am ddiben yr offeryn, ee a fwriedir gwneud mân newidiadau neu newidiadau technegol yn unig i gyfraith yr UE a ddargedwir.
Troseddau	Is-baragraffau (3) a (7) o baragraff 28, Atodlen 7	Mae'n berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad yn nodi'r 'rhesymau da' dros greu trosedd, a'r gosb sydd ynghlwm â hynny.
Is-ddirprwyo	Paragraff 30, Atodlen 7	Mae'n berthnasol i Weinidogion y Goron	Datganiad i esbonio pam ei bod yn briodol creu pŵer is-

		sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a pharagraff 1 o Atodlen 4 i greu pŵer deddfwriaethol na ellir ei arfer gan Weinidog y Goron neu Awdurdod Datganoledig. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2 neu baragraff 1 o Atodlen 4 i greu pŵer deddfwriaethol na ellir ei arfer gan Weinidog y Goron neu Awdurdod Datganoledig	ddirprwyedig o'r fath.
Brys	Is-baragraff (2) a (8) o baragraff 7, Atodlen 7	Gweinidogion Cymru sy'n arfer pwerau yn Rhan 1 o Atodlen 2 ond yn defnyddio'r weithdrefn frys ym mharagraff 7 o Atodlen 7	Datganiad bod Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr OS gan ddefnyddio'r weithdrefn frys a'r rhesymau dros y farn honno.

Rhan 2

Datganiadau angenrheidiol wrth ddefnyddio pwerau galluogi o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

1. Datganiad(au) sifftio

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Lesley Griffiths AS, wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Yn fy marn i, dylai Rheoliadau Gwastraff (Cymru)(Diwygiadau Amrywiol)(Ymadael â'r UE) 2020 fod yn ddarostyngedig i'w dirymu yn unol â phenderfyniad Senedd Cymru (hy y weithdrefn negyddol). Mae hyn yn wir oherwydd bod y newidiadau sy'n cael eu gwneud yn dechnegol eu natur ac nid ydynt yn gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i gyfraith gwastraff yng Nghymru”.

2. Datganiad addasrwydd

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Lesley Griffiths AS, wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Yn fy marn i, nid yw Rheoliadau Gwastraff (Cymru)(Diwygiadau Amrywiol)(Ymadael â'r UE) 2020 yn gwneud mwy nag sy'n briodol”. Mae hyn yn wir oherwydd bod yr offeryn yn gwneud diwygiadau technegol yn unig sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol ar ôl y diwrnod ymadael”.

3. Rhesymau da

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Lesley Griffiths AS, wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Yn fy marn i, mae rhesymau da dros y darpariaethau yn yr offeryn hwn, ac rwyf wedi dod i'r casgliad ei bod yn ffordd resymol i weithredu”. Mae hyn oherwydd bod y darpariaethau'n sicrhau bod yr amddiffyniadau a ddarperir gan deddfwriaeth Cymru sy'n cael ei diwygio yn parhau i gael eu gweithredu ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd.

4. Cydraddoldeb

- 4.1 Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Lesley Griffiths AS, wedi gwneud y datganiad(au) canlynol “Nid yw'r offeryn yn

diwygio, yn diddymu nac yn dirymu darpariaeth neu ddarpariaethau yn Neddf Cydraddoldeb 2006 na Deddf Cydraddoldeb 2010 nac is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Deddfau hynny.

- 4.2 Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Lesley Griffiths AS wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:
- 4.3 “Mewn perthynas â’r offeryn hwnnw, rwyf i, Lesley Griffiths AS, wedi rhoi sylw dyledus i’r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, annhegwch ac unrhyw ymddygiad o fath arall sydd wedi’i wahardd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.”].

5. Esboniadau

Mae’r datganiad esboniadau wedi’i wneud ym mharagraff 4 (Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael) o brif gorff y memorandwm esboniadol hwn.

6. Troseddau

Nid yw’n berthnasol/angenrheidiol.

7. Is-ddirprwyo deddfwriaethol

Nid yw’n berthnasol/angenrheidiol.

8. Brys

Nid yw’n berthnasol/angenrheidiol.